**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

20 Ionawr 2016

Annwyl Aelod Cynulliad

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am waith gwella sydd wedi'i gynllunio ar gyfer twnelau Pen y Clip a Chonwy ar yr A55.

Byddwn yn gwneud gwaith yn fuan i osod systemau rheoli'r amgylchedd a negeseuon electronig newydd, sy'n bwysig iawn i sicrhau bod y twnelau yn ddiogel. Mae sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd strategol yn ddiogel ac yn ddibynadwy yn un o'm prif bryderon, ac mae'r gwelliannau hyn yn rhan o'r buddsoddiad gwerth £42 miliwn yn seilwaith Gogledd Cymru.

Bydd Twnel Pen y Clip ar gau am bythefnos o'r 31 Ionawr. Bydd pob traffig yn cael ei ddargyfeirio i un lôn wrth-lif gerllaw Pen y Clip. Bydd pob rhan o dwnel Conwy ar gau yn ei dro yn ystod y rhaglen waith o dair wythnos gan ddechrau ar 14 Chwefror. Caiff y traffig ei ddargyfeirio i dwnel arall ar un lôn wrth-lif. Gan nad yw'n bosib i'r twnelau fod yn ddiogel wrth i'r systemau gael eu newid, nid yw'n bosib eu hail-agor bob dydd. Felly bydd y gwaith yn digwydd 24 awr y diwrnod, saith diwrnod yr wythnos.

Bydd angen cau rhai ffyrdd yn gyfan-gwbl am amser byr i ganiatâu i gerbydau llydan gael eu hebrwng drwy'r gwaith. Fodd bynnag, mae llif y traffig yn gymharol isel ym mis Chwefror, a bydd fy swyddogion yn gwneud popeth o fewn eu gallu i darfu cyn lleied â phosib. Bwriedir gorffen y gwaith erbyn dechrau Mawrth, ac rydym unwaith eto yn ymrwymo i beidio â chynllunio i reoli'r traffig yn ystod y dydd ar yr A55 o gyffordd 11 i Landygai i'r ffin â Lloegr rhwng y Pasg a mis Medi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd fy swyddogion yn cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Tref Penmaenmawr a Chyngor Tref Llanfairfechan yr wythnos hon i'w hysbysu o'r rhaglen ac o'r trefniadau rheoli traffig.

Edwina Hart